**CYPE(5)-01-20 - Papur i'w nodi 11**

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-VG-5938-19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd. Rwyf wedi nodi'r gwaith craffu pellach gennych chi ar y maes pwysig hwn ac edrychaf ymlaen at roi diweddariadau pellach.

Fel y gwyddoch, y prif gerrig milltir yn y maes hwn yw y dylai gwasanaethau cymunedol ar gyfer iechyd meddwl amenedigol fodloni Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a bodloni safonau ansawdd perthnasol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn mis Mawrth 2021. Mae gan bob un o'r cerrig milltir hyn nifer o safonau y mae'r byrddau iechyd yn gweithio tuag atynt.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y garreg filltir bwysig o ddatblygu Uned i Famau a Babanod yng Nghymru. Yn fy niweddariad blaenorol, mynegais bryder bod yr amserlen ar gyfer creu Uned chwe gwely i Famau a Babanod dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi llithro, ac roeddwn wedi gofyn i swyddogion edrych ar ddewisiadau i gyflymu'r gwaith cynllunio neu i ddod o hyd i ateb dros dro. Yn anffodus, nid yw wedi bod yn bosibl cyflymu'r amserlen ar gyfer creu uned chwe gwely parhaol, felly mae swyddogion yn awr yn blaenoriaethu ateb dros dro i sicrhau bod lefel o ddarpariaeth yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Byddwch yn sicr y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar yr amserlen ar gyfer ateb dros dro cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i'w wneud. Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i sefydlu Uned barhaol i Famau a Babanod yng Nghymru ar fyrder.

Gallaf gadarnhau hefyd y byddaf yn rhoi fy niweddariad chwe misol nesaf ym mis Ebrill 2020. Erbyn y dyddiad hwn, byddaf yn gallu rhoi gwybodaeth ar rownd nesaf y data iechyd meddwl amenedigol a gafwyd gan fyrddau iechyd, a'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynnydd yn erbyn ein cerrig milltir allweddol a'r ffrydiau gwaith sy'n cael eu rheoli gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC / AM**
Minister for Health and Social Services
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.